Ministry of Justice

# Swyddfa Cronfeydd y Llys

## Ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'r ymgynghoriad ar y broses weithredu ar gyfer cymhwyso terfyn amser o 30-mlynedd ar gyfer hawliadau i'r gronfa Balansau heb eu Hawlio

Cyhoeddwyd y fersiwn Gymraeg ym mis Rhagfyr 2023.

Cyhoeddwyd yr ymateb Saesneg ar 24 Tachwedd 2023.

Ministry of Justice

# Swyddfa Cronfeydd y Llys

Ymgynghoriad ar y broses weithredu ar gyfer cymhwyso terfyn amser 30-mlynedd ar gyfer hawliadau i'r gronfa Balansau heb eu Hawlio

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yn https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation/**

# Cynnwys

**Cyflwyniad a manylion cyswllt** **2**

Cwynion neu sylwadau 2

**Cefndir** **3**

**Ymatebion i gwestiynau penodol** **5**

**Asesiad Effaith, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg** **9**

Asesiad Effaith 9

Prawf Effaith ar yr Iaith Gymraeg 9

**Casgliad a chamau nesaf** **10**

**Egwyddorion ymgynghori** **11**

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ôl-ymgynghori ar gyfer y papur ymgynghori ar y broses weithredu ar gyfer cymhwyso terfyn amser o 30 mlynedd ar gyfer hawliadau i'r gronfa Balansau Heb eu Hawlio.

Bydd yn ymdrin â'r canlynol:
- cefndir yr ymgynghoriad;
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad;
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a godwyd yn yr adroddiad;
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Mae mwy o gopïau o'r adroddiad hwn ac o'r papur ymgynghori ar gael drwy gysylltu â Swyddfa'r Cyfrifydd Cyffredinol (OAG) yn y cyfeiriad isod:

OAG Strategy Team
Ministry of Justice
10 South Colonnade
3rd Floor, Post Point 3
Canary Wharf
London
E14 4PU

**E-bost:** cfoubconsultation@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd yn **https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation/**

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill trwy gysylltu â cfoubconsultation@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod.

# Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Ymgynghoriad ar weithredu terfyn amser o 30-mlynedd ar gyfer hawliadau i'r gronfa Balansau heb eu Hawlio' ar 7 Gorffennaf 2023. Gwahoddodd sylwadau ar sut y bydd terfyn amser ar gyfer hawliadau i'r gronfa Balansau heb eu Hawlio yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r diweddariadau arfaethedig i Reolau Cronfeydd y Llys 2011. Anelwyd yr ymgynghoriad at ddefnyddwyr gwasanaethau Swyddfa Cronfeydd y Llys, y farnwriaeth, gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd, cwmnïau helwyr etifeddion neu aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb neu farn ar y pwnc a drafodir yn y papur hwn yng Nghymru a Lloegr.

Amlinellodd y cynnig yn y papur ymgynghori'r canlynol: os yw cyfrif Balans heb ei Hawlio (UB) wedi bod yn segur am 30-mlynedd neu fwy, gellir dileu unrhyw hawliad iddo yn awr (yn rhinwedd y diwygiad i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982[1]). Mae cymhwyso terfyn amser ar gyfer hawliadau i'r gronfa UB yn gyfle sylweddol i ddatgloi symiau o arian heb ei hawlio y gellid eu defnyddio er budd y cyhoedd. Byddai hyn yn golygu y byddai pob cronfa sydd wedi mynd heibio i'r terfyn amser, er enghraifft y rheini sydd wedi bod yn segur ers 30-mlynedd a mwy, yn cael eu priodoli a'u hildio i'r Trysorlys. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor sy'n tanlinellu Bona Vacantia.[2]

Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn y cyhoedd ar y canlynol:

- dyddiad gweithredu'r ildiad cyntaf o gronfeydd segur heb eu hawlio o 30-mlynedd a mwy, gydag o leiaf dri mis o rybudd;
- sicrhau bod chwiliadau a wneir gan Swyddfa Cronfeydd y Llys i aduno arian gyda'u buddiolwyr yn gymesur ac yn ddigonol;
- unrhyw addasiadau posibl i'r polisi y dylem eu hystyried wrth roi cyhoeddusrwydd i segurdod Balansau heb eu Hawlio;
- a fyddai'r polisi'n cael effaith anghymesur ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig;
- unrhyw addasiadau posibl i'r polisi y dylem eu hystyried er mwyn lliniaru unrhyw effaith anghymesur ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 31 Awst 2023 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut y bu i'r broses ymgynghori ddylanwadu ar ffurf derfynol a datblygiad pellach y polisi yr ymgynghorwyd arno.

[1] Diwygiad a wnaed drwy Ddeddf Cyllid 2023 (Adran 350) - https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/30/section/350/enacted

[2] https://www.gov.uk/government/organisations/bona-vacantia

Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) sy’n cyd-fynd â’r ymgynghoriad wedi cael ei ddiweddaru i ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid a dadansoddiad pellach a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Mae'r papur ymateb Cymraeg a’r EIA ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation/

# Ymatebion i gwestiynau penodol

Derbyniwyd un ymateb i'r papur ymgynghori. Roedd hwn gan grŵp a oedd yn cynrychioli dinasyddion hŷn. Mae Swyddfa’r Cyfrifydd Cyffredinol (OAG) wedi adolygu’r ymateb ac wedi dadansoddi’r awgrymiadau a ddarparwyd. Gweler isod fanylion yr ymatebion a roddwyd i bob cwestiwn.

**Cwestiwn 1 Bwriad y Cyfrifydd Cyffredinol yw trosglwyddo i’r Trysorlys yr holl gyfrifon Balansau heb eu Hawlio sydd wedi bod yn segur am 30-mlynedd a mwy, gan ddechrau o fis Ebrill 2024. Rydym yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i ddyddiad gweithredu’r tyniad cyntaf gydag o leiaf dri mis o rybudd a fydd, yn ein barn ni, yn ddigonol. Ydych chi'n cytuno â'r cyfnod rhybudd?**

Yr ymateb cyhoeddus a gafwyd oedd nad yw’r cyfnod o 3 (tri) mis yn ddigon hir i ddinasyddion hŷn. Awgrymwyd y dylai’r cyfnod byrraf fod yn 6 (chwech) mis, a fyddai’n rhoi mwy o amser i ddinasyddion hŷn drafod ac ymateb i’r cyfnod rhybudd.

**Ymateb y Llywodraeth**

Mewn ymateb i’r pryderon a godwyd gan yr ymgynghoriad, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymestyn y cyfnod rhybudd o 3 (tri) mis i 4 (pedwar) mis. Cydnabyddir bod yr ymateb yn awgrymu cyfnod rhybudd o 6 (chwe) mis. Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi adolygu pa mor rhesymol yw’r cyfnod rhybudd hwn ac yn ystyried bod 3 (tri) mis yn ddigon o rybudd. Fodd bynnag, cytunwyd ar estyniad o 1 (un) mis ychwanegol fel diwygiad priodol. Bydd y mis ychwanegol hwn nawr yn rhoi mwy na digon o amser i unigolion a allai fod angen cymorth ychwanegol yn ystod y broses hon. Yn ogystal â hyn, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu rhagor o wybodaeth am sut mae cofrestru hawliad sydd ar y gweill i sicrhau bod y cyfrif perthnasol yn cael ei ddal ar sail dros dro tra bydd hawliad yn cael ei adolygu a’i brosesu gan y llys priodol.

---

**Cwestiwn 2 Mae Swyddfa Cronfeydd y Llys yn cynnal chwiliadau cymesur i aduno cronfeydd â’u buddiolwyr. Gwneir hyn drwy gysylltu â buddiolwyr yn y cyfeiriad hysbys diwethaf. Mae’r gwiriadau sydd ar waith i olrhain buddiolwyr yn amrywio o un math o achos i’r llall. Ydych chi’n cytuno bod y chwiliadau a nodir uchod yn gymesur ac yn ddigonol?**

Roedd yr ymateb cyhoeddus a gafwyd yn cytuno bod chwiliadau cymesur yn cael eu cynnal i aduno arian gyda buddiolwyr. Y llys sy'n penderfynu a yw chwiliadau cymesur yn cael eu cynnal, ac mae angen i'r llys gael ei fodloni.

**Ymateb y Llywodraeth**

Gan fod y llysoedd yn fodlon â'r broses bresennol ac nad oes unrhyw wrthwynebiad wedi'i wneud gan yr ymateb cyhoeddus, ni fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

---

**Cwestiwn 3a Cyfrifoldeb yr hawlydd fydd penderfynu ar y dyddiad terfyn o 30-mlynedd ar gyfer gwneud hawliad. Ydych chi'n cytuno bod hwn yn ddull rhesymol?**

Roedd yr ymateb cyhoeddus a gafwyd yn dweud eu bod yn teimlo nad oes gan nifer fawr o ddinasyddion hŷn gyfleusterau ar-lein felly dylid cael ffyrdd eraill i bartïon sydd â diddordeb chwilio, e.e. rhaid defnyddio Teledu Lleol, Papurau Newyddion, Llythyrau a Radio Lleol hefyd.

**Ymateb y Llywodraeth**

Ni chafodd lleoliad a fformat y gronfa ddata Balansau heb eu Hawlio eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bwriad y cwestiwn hwn oedd mynd i'r afael â rhesymoldeb cyfrifoldeb hawlwyr i benderfynu pa gyfrifon sy'n agos at y terfyn 30-mlynedd, nid lleoliad ei gyhoeddi. I gael eglurhad ar yr ymateb o ran mynediad, os bydd unigolyn yn credu y gallai fod ganddynt hawl i hawlio cronfa, gallant gysylltu â Swyddfa Cronfeydd y Llys dros y ffôn neu e-bost. Gweler y manylion isod, a gofynnwch iddynt chwilio'r gronfa ddata ar eich rhan. Mae cynsail ar gyfer hyn gan fod proses debyg yn cael ei dilyn ar gyfer Bona Vacantia, mae lleoliad a fformat presennol y Balansau heb eu Hawlio yn addas ac yn gymesur. Gan nad oedd unrhyw bryderon wedi'u codi'n uniongyrchol mewn perthynas â'r cwestiwn ymgynghori hwn, nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Manylion cyswllt Swyddfa Cronfeydd y Llys

Ffôn: 0300 0200 199

E-bost: enquiries@cfo.gov.uk

Cyfeiriad: Court Funds Office, Sunderland, SR43 3AB

---

**Cwestiwn 3b Mae modd chwilio'n gyhoeddus drwy gronfa ddata'r Balansau heb eu Hawlio yn ôl allweddeiriau a/neu ystod dyddiadau. A yw hyn yn ddigon o gyhoeddusrwydd i gronfa ddata'r Balansau heb eu Hawlio?**

Fel yr ymateb cyhoeddus a ddarparwyd ar gyfer Cwestiwn 3a – nid oes gan rai dinasyddion hŷn gyfleusterau ar-lein felly dylai fod ffyrdd eraill i'r partïon sydd â diddordeb chwilio.

**Ymateb y Llywodraeth**

Ni chafodd lleoliad y gronfa ddata Balansau heb eu Hawlio ei gynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bwriad y cwestiwn hwn oedd mynd i'r afael â sut y gellir defnyddio'r gronfa ddata ar ei ffurf bresennol, nid lleoliad ei chyhoeddi. Mae cynsail ar gyfer hyn gan fod proses debyg yn cael ei dilyn ar gyfer Bona Vacantia, mae lleoliad a fformat presennol y Balansau heb eu Hawlio yn addas ac yn gymesur. Fel eglurhad, os bydd unigolyn yn credu y gallai fod ganddynt hawl i hawlio cronfa, gallant gysylltu â Swyddfa Cronfeydd y Llys dros y ffôn neu e-bost. Gweler y manylion isod, a gofynnwch iddynt chwilio'r gronfa ddata ar eich rhan. Gan nad oedd unrhyw bryderon wedi'u codi'n uniongyrchol mewn perthynas â'r cwestiwn ymgynghori hwn, nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Manylion cyswllt Swyddfa Cronfeydd y Llys:

Ffôn: 0300 0200 199

E-bost: enquiries@cfo.gov.uk

Cyfeiriad: Court Funds Office, Sunderland, SR43 3AB

---

**Cwestiwn 4 Nid ydym yn rhagweld y bydd y newid hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar unigolion neu fusnesau gan eu bod yn ymwneud ag achosion lle nad yw cleientiaid wedi hawlio eu balansau ac nad oes modd eu holrhain. Ydych chi'n ystyried eich bod chi neu eich busnes yn cael eich effeithio'n andwyol o ganlyniad i'r newid hwn?**

Mae'r ymateb cyhoeddus a gafwyd wedi cadarnhau nad ydynt yn teimlo y bydd y newid hwn yn cael effaith andwyol ar ddinasyddion hŷn.

**Ymateb y Llywodraeth**

Dim camau pellach i'w cymryd.

**Cwestiwn 5 A ydych yn cytuno ein bod wedi nodi'n gywir hyd a lled yr effeithiau ar gydraddoldeb o dan bob un o'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn?**

Roedd yr ymateb cyhoeddus a gafwyd yn nodi bod yn rhaid ystyried mynediad at wybodaeth ar-lein gan ddinasyddion hŷn nad oes ganddynt gyfleusterau ar-lein fel rhan o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

**Ymateb y Llywodraeth**

Ni chafodd lleoliad a fformat y gronfa ddata Balansau heb eu Hawlio eu cynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Fel yr eglurwyd yn yr ymatebion i'r cwestiynau blaenorol, mae dulliau eraill ar gael i unigolion holi Swyddfa Cronfeydd y Llys ynghylch hawliadau posibl am Falansau heb eu Hawlio. Bydd hyn yn parhau i gefnogi'r rheini sydd â chyfleusterau ar-lein cyfyngedig neu ddim cyfleusterau o gwbl. Ar ben hynny, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymestyn y cyfnod rhybudd i ganiatáu mwy o amser i unigolion sy'n gwneud hawliadau cyn y dyddiad gweithredu polisi cyntaf. Bydd hyn, er enghraifft, yn rhoi mwy o amser ar gyfer cyfathrebu drwy'r post ar ymholiadau am hawliadau. Gan nad oedd unrhyw bryderon wedi'u codi'n uniongyrchol mewn perthynas â'r cwestiwn ymgynghori hwn, nid oes angen cymryd unrhyw gamau pellach.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldebau a'r Iaith Gymraeg

## Asesiad Effaith

Nid oes Asesiad Effaith wedi'i baratoi gan nad yw'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar y polisi ei hun, ond yn hytrach sut y caiff ei gyflwyno ac er mwyn cael cadarnhad ynghylch yr amodau segurdod y mae Swyddfa'r Cyfrifydd Cyffredinol yn eu defnyddio.

Cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA), Atodiad A, ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Ar ôl ymgynghori, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i ddiweddaru (Atodiad B) wedi cael ei gyhoeddi i adlewyrchu'r newid yn y cyfnod rhybudd cyhoeddus ar gyfer gweithredu'r polisi hwn.

Ein hasesiad o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi'i ddiweddaru yw nad yw'r polisi'n gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol o fewn ystyr Deddf 2010, gan ei fod yn berthnasol yn yr un ffordd i bob unigolyn, ni waeth beth yw eu nodweddion gwarchodedig; ac nid yw'n cael ei ystyried yn debygol o arwain at unrhyw anfanteision penodol i ddeiliaid cyfrif sydd â nodweddion gwarchodedig.

## Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Mae fersiwn Cymraeg o'r papur ymgynghori hwn, yn ogystal â'r Asesiad Cydraddoldeb, ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/court-funds-office/unclaimed-balances-fund-consultation/.

# Casgliad a'r camau nesaf

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad yn ofalus ac mae'r camau canlynol wedi cael eu rhoi ar waith, neu byddant yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad.

1. Er nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â chwestiynau'r ymgynghoriad a ofynnwyd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cadarnhau ffyrdd eraill y gall unigolion chwilio am falansau posibl sydd heb eu hawlio nad oes angen cyfleusterau ar-lein ar eu cyfer.

2. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymestyn y cyfnod rhybudd cyhoeddus ar gyfer gweithredu'r polisi newydd hwn i 4 (pedwar) mis.

3. Yn ogystal â hyn, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu rhagor o wybodaeth am sut mae cofrestru hawliad sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod y cyfrif perthnasol yn cael ei ddal yn ôl dros dro tra bydd hawliad yn cael ei adolygu.

# Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint perthnasol.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i Swyddfa Cronfeydd y Llys.

Ffôn: 0300 0200 199

E-bost: enquiries@cfo.gov.uk